



NEWYDDLLEN

Swyddfeydd Newydd y Cyngor - Coed Pella



RHIFYN 4 - TACHWEDD 2017

Dyma bedwerydd rhifyn y Newyddlen, a nodwn ben-blwydd trosglwyddo'r safle i bartner datblygu Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Muse Developments a'u prif gcontractwr, Bowmer and Kirkland. Gwnaed cryn dipyn o gynnydd yn ystod y cyfnod arwyddocaol hwn o Strategaeth Swyddfeydd y Cyngor, ac edrychwn ymlaen at y deuddeg mis nesaf gyda'r disgwyliad i gwblhau Swyddfeydd Coed Pella yn hydref 2018.

DYNA WAHANIAETH MAE 12 MIS YN GWNEUD...

Yn ôl ar 31 Hydref 2016, nododd cynrychiolwyr y Cyngor drosglwyddo'r safle i Muse Developments yng nghwmni Ken Skates AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi ac Isadeiledd. Ddeuddeg mis yn ddiweddarach mae'r adeilad a feddiannodd y rhan fwyaf o'r safle bellwch yn hen gof, gyda'r adeilad o'r 1970au wedi'i ddymchwel gan wneud lle i'r darnau ffrâm dur, sy'n llenwi'r safle wythnos.



Uchod - y safle yn 2016

Meddai Bleddyn Evans, Rheolwr Prosiect Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, "Rydym wrth ein bodd â'r 12 mis cyntaf ar y safle ac mae ein partneriaeth â Muse Developments wedi gweld newid gwyach i'r dirwedd drefol gyda'r strwythur dur ar gyfer Swyddfeydd Coed Pella yn cymryd eu siâp. Mae'r cynigion a fu ar bapur

mor hir bellach yn cael eu gwireddu, ac mae'n amser mor gyffrous i'r rhai sy'n rhan, ac ymhen 12 mis dylai fod wedi'i gwblhau a byddwn yn symud staff i mewn".



Uchod – gwaith yn mynd rhagddo, fis Hydref cynnar 2017

Dylai'r gwaith o adeiladu'r ffrâm ddur, a ddechreuodd ym mis Gorffennaf, gael ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn. Mae'r cyhoedd, staff y Cyngor ac ymwelwyr â Bae Colwyn, wedi bod yn gwyllo'r newidiadau ar y safle ac mae'r gwaith sy'n mynd rhagddo wedi cael argraff dda arnynt.

Ychwanegodd Wes Erlam, Cyfarwyddwr Datblygu Muse, "Mae'r trawsnewidiad yn y safle dros y 12 mis diwethaf wedi bod yn hynod o anhygoel, ac mae'r hyn a oedd unwaith yn safle darfodedig, wedi'i adael yn newid bob mis i strwythur sy'n dal y llygad a fydd yn adeilad gwirioneddol eiconig yn gwasanaethu Bae Colwyn a'r Sir am ddegawdau i ddod. Mae prosiect Swyddfeydd Coed Pella yn parhau ar amser ac ar y

gyllideb, ac edrychwn ymlaen at y cynnydd a wneir dros y misoedd nesaf."

DIWEDDARIAD AR YR ADEILADU

Mae Bae Colwyn wedi gweld nifer o graenau dros y misoedd diwethaf wrth i wneuthurwr dur Evadx, o Sir Conwy, wneud cynnydd rhagorol wrth godi'r ffrâm ddur ar gyfer adeilad y swyddfa a'r maes parcio aml-lawr.



Uchod - gwaith cynnar ar ffrâm ddur y swyddfa.

Mae'r maes parcio aml-lawr yng nghefn y safle, y ceir mynediad iddo o Ffordd Lansdowne wedi symud ymlaen ers y newyddlen ddiwethaf, gyda'r gwaith dur wedi ei gwblhau a gosod y planciau concrid wedi'u rhag-gastio.



Uchod – gwaith ar y maes parcio.

Dros y misoedd nesaf, bydd y gwaith brics lefel isel ar y maes parcio aml lawr, ynghyd â'r triniaethau wyneb a drychiadau yn cael ei symud ymlaen, ynghyd ag adeiladu siafftau lifft.

Mae'r ffrâm ddur ar gyfer yr adeilad swyddfa ei hun wedi datblygu'n dda, ar ôl dechrau ar ben Ffordd Coed Pella'r safle ym mis Awst, a gweithio i lawr tuag at Ffordd Conwy, ac mae'r cribau i'r to yn rhoi cymeriad gwych i'r drychiadau hyn. Parhaodd y gwaith ar y ffrâm

ddur ar hyd ffryntiad Ffordd Conwy, a disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn canol Tachwedd. Bydd y grisiau i'r



Uchod - ffrâm ddur y swyddfa yn cael ei chodi.

swyddfeydd wedi eu gosod mewn rhai ardaloedd, fel mae'r deciau dur i'r lloriau uchaf. Mae gwaith i gladin y swyddfeydd a'r maes parcio ar y gweill, ac mae'n rhaid ei gwblhau erbyn diwedd eleni.

Dywedodd Malcolm Robertson, Uwch Reolwr Contractau, "Rydym wedi gweithio'n galed gyda'n isgontractwyr i gynnal y rhaglen adeiladu ac i leihau faint o aflonyddwch sydd yna yng nghanol tref Bae Colwyn. Mae'r gwaith rhagorol rhyngom ni, Jennings a Evadx wrth gynllunio ar gyfer adeiladu'r ffrâm ddur ac yn ystod ei hadeiladu, wedi galluogi'r cynnydd a welwn ar y safle ac wrth gwrrd â disgwyliadau Muse Developments a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy".

Mae llyfrgell o luniau sy'n olrhain y rhaglen adeiladu dros y tri mis diwethaf ar wefan Conwy, i weld y delweddau, cliciwch yma [here](#).

Gyda'r broses adeiladu yn symud ar gyflymder, mae'r Cyngor yn sefydlu rhaglen ar gyfer adleoli staff i'r swyddfeydd a bydd yn rhannu hyn nid yn unig gyda staff, ond y gymuned leol maes o law i alluogi pontio llyfn.

DARPARU MWY NAG ADEILAD

Ar flaen y gad ym meddyliau'r Cyngor ar ddechrau'r prosiect oedd sut y gallai'r broses adeiladu ysgogi, addysgu a hwyluso gwelliannau yn y gymuned leol. Mae'r 12 mis diwethaf wedi gweld rhai buddiannau sylweddol a ddarperir gan y Cyngor, Muse Developments a Bowmer & Kirkland, ac mae nifer ohonynt wedi ymddangos mewn newyddlenni blaenorol.

Dros yr haf, bu B&K yn gweithio gyda Choleg Llandrillo i ddatblygu'r 'B&K House' lle byddai myfyrwyr y coleg yn adeiladu tŷ bychan, cludadwy y gellid ei ddatgymalu, ac y byddai B&K yn ei gymryd i'r gymuned wrth ymweld ag ysgolion a grwpiau.



Uchod - Joe a John, myfyrwyr yng Ngholeg Llandrillo.

Joe Roberts, sydd am fod yn saer mainc a John Bancroft, sydd eisiau bod yn saer safleoedd adeiladu, y ddau yn fyfyrwyr yng Ngholeg Llandrillo, a adeiladodd y tŷ, a chawsant eu gwobrwyo am eu gwaith ardderchog gyda bag offer, trwy garedigrwydd B&K. Un o'r ymweliadau cyntaf ar gyfer B&K House oedd Ysgol Sant Joseff, Bae Colwyn, nid ymhell o safle Swyddfa Coed Pella, lle'r oedd y disgyblion yn cael amser gwych yn ei adeiladu, ac roedd rhai yn awyddus iawn i fynd i'r diwydiant adeiladu, fel y gellir gweld isod!



Mae B&K, Muse Developments, AHR Architects, y prif gontractwyr peirianeg A&B, a'r cwmni sgaffaldiau lleol, Ray Seager, wedi cyfrannu tuag at gronfa ysgol St Joseff ar gyfer ardal chwarae newydd yn yr ysgol gynradd. Yn garedig iawn mae Celtest o Fangor wedi rhoi talebau WHSmith i enillwyr cystadleuaeth lliwio Swyddfeydd Coed Pella, a bydd disgyblion o Ysgol Pen y Bryn gerllaw yn cymryd rhan ynddi nesaf.

Gan barhau gyda'r thema lliw, dyfarnwyd Bae Colwyn yn ddiweddar yn Dref Fawr Orau Cymru yn ei Blodau, a darparodd B&K nawdd ar gyfer ymgais Bae Colwyn yn 50fed mlynedd y Wobr.

Meddai Bleddyn Evans ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, "Mae'n wir dweud, 12 mis i mewn i'r prosiect adeiladu, mae ein partner datblygu, Muse, y prif gontractwr, Bowmer & Kirkland, a'r isgontractwyr wedi prynu i mewn i'n Cynllun Gwerth Cymdeithasol ac maent wir wedi gwneud gwahaniaeth. Mae B & K wedi integreiddio ac ymgysylltu â'r gymuned, gan ymrwmo i helpu ar Sul y Cofio, Noson Tân Gwylt, ac yn ddiweddar, cyfrannu eu hamser staff neu roi rhoddion i'r Banc Bwyd a Hosbis Dewi Sant. Maent wedi dangos ymrwymiad mawr wrth bartneru gyda'r Cyngor a'r gymuned."

CYNLLUN CYFLOGAETH A SGILIAU

Rhan allweddol o'r Cynllun Gwerth Cymdeithasol oedd y Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau, y bu'r Cyngor, Muse a B&K yn gweithio gyda Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB) arno i sicrhau statws yr Academi Sgiliau Genedlaethol ar gyfer Adeiladu. Mae'r adolygiad 12 mis yn dod i ben gyda'r CITB, ond hyd yn hyn mae nifer o'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol eisoes wedi eu rhagori, yn fwyaf nodedig y canlynol:

- creu 3 lleoliad gwaith (ar gyfer NEETS)
- Crëwyd 14 o swyddi ar gyfer newydd-ddyfodiaid
- Rhoddwyd 41 o wythnosau hyfforddi
- 40 cymhwyster newydd trwy gyrtsiau tymor byr

Dyweddodd Aled Hughes, CITB, "Mae'r Cyngor a'i bartneriaid wedi prynu mewn i egwyddorion yr Academi Sgiliau Genedlaethol ar gyfer Adeiladu ac maent yn gweithio'n galed i ddarparu a chynyddu'r cyfleoedd y gall y prosiect hwn eu cynnig. Fel Bwrdd, edrychwn ymlaen at weithio gyda'r bartneriaeth dros y

12 mis nesaf wrth adael etifeddiaeth i'r gymuned leol ar ffurf cyfleoedd gwaith, hyfforddiant ac addysg."

ADBORTH BUSNES

Mae bob amser yn dda clywed adborth cadarnhaol am y ffordd y mae'r contractwyr ar y safle wedi perfformio, a sut mae'r gymuned leol yn cymryd diddordeb brwd yn y rhaglen adeiladu.

Mae gan Lynne Parry o Lets XL Ltd, Ffordd Conwy, sydd â'i swyddfa yn edrych dros y safle, fel ei chyd-aelodau staff, â diddordeb mawr yn yr hyn sy'n digwydd drws nesaf. "Wrth fod ar garreg y drws, mae gennyf ddiddordeb yn y broses adeiladu ac mae B&K a'r Cyngor wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi drwy gydol y broses." Ychwanegodd, "Rydw i'n falch o weld sut y bydd yr adeilad yn edrych ar ôl gorffen, a'r hyn fydd gan y dyfodol i'w gynnig yng nghanol y dref."

Anfonwyd y llun isod gan Andrew Ellwood, Cyfarwyddwr Gweithrediadau Supertemps, Ffordd Conwy. Mae'n dangos y safle, gyda haul hwyr y prynhawn ar 1 Hydref.



Cafodd B&K adborth da o sawl cyfeiriad yn ystod y Diwrnod Cyfarfod y Prynwr diweddar a gynhaliwyd yn Stadiwm Zip World ym Mharc Eirias, o ran y cyfleoedd a oedd ar gael i gontractwyr lleol. Mae nifer o'r contractwyr a fynychodd y diwrnodau Cyfarfod y Prynwr blaenorol wedi sicrhau contractau ar brosiect Coed Pella.

CAEL GWARED AR ASEDAU

Ers cychwyn y Strategaeth Swyddfeydd yn 2013, mae'r Cyngor wedi bod yn symleiddio ei bortffolio eiddo.

Gyda'r Cyngor yn gwagio hen adeiladau, mae hyn nid yn unig yn rhyddhau arian ac yn cyfnerthu ei swyddogaethau i lai o safleoedd, mae hefyd yn rhoi cyfle ar gyfer defnyddiau eraill ac i fusnesau gymryd y gofod drosodd, ac mewn rhai achosion mae'n galluogi i newid ar nifer o lefelau.

Gwerthwyd yr hen swyddfeydd Priffyrdd yn York Road, Llandudno, ynghyd â chyn cartref gofal y Cyngor i McCarthy & Stone a ddatblygodd eiddo ymdeol ar y safle. Gwerthwyd yr hen swyddfeydd Tai a Pholisi ar Castle Street yng Nghonwy a chawsant eu trosi'n siop goffi Costa a swyddfeydd, sydd wedi dod â bywiogrwydd i'r rhan honno o Gonwy.

Ar wahân i gael gwared ar adeiladau i'r sector preifat, mae'r Cyngor wedi trosglwyddo cyn swyddfeydd ym Mae Colwyn i Pennaf a Chartrefi Conwy, sydd wedi trosi'r rhain yn dai arbenigol a thai fforddiadwy. Adleolodd Heddlu Gogledd Cymru i hen swyddfeydd y Gwasanaethau Cymdeithasol ar Argyll Road, Llandudno; roedd hyn yn eu galluogi i ddymchwel yr hen Orsaf Heddlu a datblygu eu cyfleuster newydd ar hyd Oxford Road. Mae hen swyddfa'r Gwasanaethau Cymdeithasol, ar hyd Builder Street, Llandudno, wedi'i ddychwelyd i'r landlord, Blair Estates Ltd yn ddiweddar; lleolwyd y swyddfeydd mewn lleoliad diwydiannol a bydd yn gyfle gwych i'w ailddatblygu, a fydd yn gwella'r ardal a'r economi leol.

Gan edrych ymlaen at 2018, bydd y Cyngor yn canolbwyntio ar nifer o swyddfeydd eraill, a fydd yn cael eu gwagio erbyn diwedd y flwyddyn honno pan fydd staff yn symud i Swyddfeydd newydd Coed Pella. Yn lleol i Fae Colwyn ceir gwared ar 41 a 74 Ffordd Conwy, mae llun o 41 isod. Am ragor o wybodaeth am y gwarediadau hyn, cysylltwch â OAS@Conwy.gov.uk

